

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

14 Gorffennaf 2021

Annwyl Gadeirydd

Amserlenni Pwyllgorau

Ysgrifennaf i roi gwybod ichi am Amserlenni Pwyllgorau fel y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar amserlen sy'n darparu cyfarfodydd bob pythefnos i bwyllgorau, ac eithrio'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, sy'n cyfarfod bob wythnos oherwydd yr angen i ystyried Offerynnau Statudol i derfynau amser caeth.

Neges allweddol gan Fforwm Cadeiryddion y Pumed Senedd oedd sicrhau bod hyblygrwydd yn y trefniadau ar gyfer pwyllgorau fel y gellir rheoli cynnydd mewn llwyth gwaith, neu dasgau newydd. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ceisio cyflwyno'r hyblygrwydd hwn drwy amrywio'r amser cyfarfod a neilltuir i wahanol bwyllgorau. Mae hyn yn adlewyrchu'r math o waith y gallai fod angen i wahanol bwyllgorau ei wneud ac mae'n adlewyrchu sut mae arferion gwaith wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

I'r perwyl hwn, mae'r amserlen bob pythefnos ac mae nifer o slotiau cyfarfod ychwanegol ar gael, i ddarparu ar gyfer cynnydd yng ngwaith pwyllgorau penodol e.e. y Pwyllgor Cyllid wrth ystyried cyllideb ddrafft, neu bwyllgor sydd â chyfrifoldebau craffu deddfwriaethol Cyfnod 1. Trwy dan-ymrwymo'r capasiti amserlennu, mae mwy o gyfleoedd i bwyllgorau weithio gyda'i gilydd gan fod llai o bosibilrwydd o wrthdaro aelodaeth ym mhob slot cyfarfod.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddBusiness@senedd.wales

 0300 200 6565

I gydnabod cyfrifoldebau craffu deddfwriaethol hysbys a disgwylidig rhai pwyllgorau, darperir slot cyfarfod dwbl i'r pwyllgorau a ganlyn h.y. slot bore a phrynhawn ar ddydd lau:

- Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol


Darperir slot cyfarfod sengl i'r pwyllgorau sy'n weddill h.y. un slot cyfarfod bore neu brynhawn bob pythefnos. Y pwyllgorau hyn yw:

- Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Cyllid;
- Llywodraeth Leol a Thai
- Deisebau;
- Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; a
- Safonau Ymddygiad

Er mwyn darparu rhywfaint o gapasiti ychwanegol ar gyfer gwaith craffu ar Ffiliau, mae dyddiau Gwener hefyd ar gael ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 2 pwyllgorau ar Ffiliau h.y. i ddarparu cyfarfod ychwanegol (ac o bosibl cyfarfod hwy) i bwyllgorau yn ystod y cyfnod hwn o'r broses ddeddfwriaethol. Bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu neilltuo unrhyw slotiau ychwanegol yn dilyn cais gan bwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Busnes eisoes wedi nodi ei fwriad i adolygu amserlennu, fel y gall ymateb i anghenion pwyllgorau wrth i'r tasgau sy'n eu hwynebu newid. Mae hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth wraidd ei benderfyniadau ynghylch amserlennu pwyllgorau, ac mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu adolygu strwythur ac amserlen y pwyllgorau tua Pasg 2022.

Yn gywir



Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

